# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, W. I. Hughes, W. T. Hughes, Eric Jones, Gareth W. Roberts OBE, Elwyn Schofield, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolydd Isadeiledd TGCh (BE)<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtni (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd H. Eifion Jones<br>Mr. Mick Giannasi - Comisiynydd |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Parry – Deilydd Portffolio<br>Mr. Martyn Thomas – Ymgynghorydd AD a Chyflogres |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd isod:-

- Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2012
- Cofnodion y Cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2012.
- Cofnodion y Cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 11 Mai 2012.
- Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2012.

**3 SYSTEM GYFLOGAU / ADNODDAU DYNOL INTEGREDIG – ADRODDIAD GWAITH**

Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolydd Isadeiledd TGCh mewn perthynas â'r uchod. Nododd bod Rhan 1 y prosiect yn cynnwys Modiwl AD, Modiwl Recriwtio a Modiwl Hyfforddi. Roedd y Modiwlau hyn wedi eu gweithredu a chychwynnwyd Rhan 2 yn 2011. Roedd Rhan 2 y prosiect yn cynnwys Hunanwasanaeth a Recriwtio ar y We. Nodwyd bod rhai problemau yn parhau mewn perthynas ag adrodd ar salwch. Mae'r system yn gweithio'n iawn ac mae'r adroddiadau yn gywir ond mae cywirdeb y wybodaeth a roddir yn y system yn cael ei pheryglu gan fewnbynnu annilys neu anghywir. Mae hyn yn cael ei liniaru trwy roi rhagor o hyfforddiant i ddefnyddwyr. Rhaid rhoi'r strwythurau sefydliadol a'r patrymau gweithio yn y system yn gywir fel y gellir adrodd yn gywir ar absenoldebau salwch. Rhagwelir y byddir wedi gwneud hyn erbyn diwedd mis Mehefin.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mynegwyd pryderon mawr nad oedd y system ar gyfer adrodd ar salwch yn weithredol byth. Awgrymir y dylid gwahodd cynrychiolwyr y Cleient (h.y. yr Adain Adnoddau Dynol yn yr achos hwn) i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol i roi gwybod am faterion sydd angen sylw mewn perthynas â'r system cofnodi absenoldebau salwch.
- Dywedwyd y dylai'r Pwyllgor hwn gael adroddiad ysgrifenedig mewn perthynas â'r system hon, i gynnwys gwybodaeth ar y cynnydd a wnaed a'r problemau a gafwyd hyd yma, amserlen i'r dyfodol ar gyfer y system ynghyd â gwybodaeth ynghylch a yw'r system newydd yn darparu gwerth am arian.

Fel Client y System Gyflogau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ei bod yn hyderus bod yr Adain Gyflogau yn cael budd o'r system.

**PENDERFYNWYD:**

- **Cyflwyno adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar fanteision y system a'r budd ariannol yn y dyfodol mewn perthynas â'r cyfleusterau hunanwasanaeth.**
- **Bod adroddiad diweddaru hefyd yn cael ei gyflwyno ar y system absenoldeb salwch a gwahodd cynrychiolwyr o Wasanaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod i'r cyfarfod.**

**4 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL – CHWARTER 4 2011/2012**

Cyflwynwyd – data perfformiad chwarterol ar gyfer Chwarter 4 cyfnod adrodd 2011/12 er mwyn nodi eithriadau a gwneud argymhellion ynghylch camau cywiro a awgrymwyd ar gyfer Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai dogfen sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw'r Cynllun Busnes Corfforaethol a bod gwasanaethau gwahanol yn bwydo i mewn i'r cynllun.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Dywedodd yr Aelodau y dylai sylwadau gan y Pwyllgorau Sgriwtini eraill fod wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad.
- Bydd yr effaith ar ysgolion lleol a'r iaith Gymraeg yn anferth os bydd prosiect Wylfa B yn digwydd.
- Dywedodd rhai Aelodau bod y lefelau yn y Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol wedi eu gosod yn rhy uchel i fedru herio. Ystyriwyd bod rhai blaenoriaethau yn yr adroddiad heb eu cyflawni ac y dylid fod wedi eu marcio fel risgiau corfforaethol sy'n parhau.
- Dylai bod gan Aelodau fewnbwn i'r gwaith o greu Cytundebau Canlyniadau, a dylid bod rhyw fath o 'Wiriad Sgriwtini' i sicrhau bod y targedau a bennir yn realistig ac y gellir eu cyflawni.
- Dylai'r adroddiad gyfeirio at ba Gomisiynydd/Aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol fydd yn gyfrifol am ba flaenoriaeth. Ymhellach, awgrymwyd y dylai'r holl Gomisiynwyr ddod i gyfarfodydd Pwyllgorau Sgriwtini yn y dyfodol i drafod y wybodaeth chwarterol ynghylch perfformiad.

Mewn ymateb i sylwadau Aelodau, roedd y Swyddogion yn bryderus nad oedd y newidiadau arfaethedig i fformat yr adroddiad yn gyson gyda'r fformat y cytunwyd arno. Awgrymwyd cael cyfarfod o gydranddeiliaid.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**5 SIARTER GYDA CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ynghylch cryfhau'r berthynas rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cyngor Sir. Mae Panel o Swyddogion a Chlercod Cynghorau Tref/ Cymuned wedi bod yn cyfarfod i ddatblygu Siarter Ddrafft. Cylchredwyd adroddiad drafft y Panel am sylwadau ond dim ond 5 ymateb a gafwyd.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:

- Roedd angen rhoi sylw i lefelau cynrychiolaeth Cynghorau Tref/Cymuned mewn cyfarfodydd cyswllt;

- Gallai symud i ffwrdd o ohebiaeth bapur i systemau electronig, fel y nodir yn yr adroddiad, greu anawsterau ymarferol ar gyfer rhai Cynghorau Tref/Cymuned a byddai angen rhoi sylw i hynny;

- Yn hytrach nag ymrwymo i 4 o gyfarfodydd chwarterol bob blwyddyn, roedd teimlad y byddai'n well efallai ymrwymo i gynnal 3 chyfarfod (pob 4 mis), gyda'r hyblygrwydd i gynyddu nifer y cyfarfodydd os oes angen;

- Roedd angen rhoi sylw i effaith bosib y Siarter ar adnoddau (yn y Cyngor Sir ac yn y Cynghorau Tref/ Cymuned) er mwyn sicrhau bod y siarter yn cyfrannu tuag at ddarparu gwerth am arian ar gyfer y ddau barti;

- Dylai'r siarter gynnwys y ffaith bod Cynghorau Tref/Cymuned yn ymgyngoreion statudol;

- Mae angen cynnwys newidiadau yn y siarter:-

    - Roedd angen egluro ymadroddion fel '*yn ôl eu disgresiwn*' ac '*os bydd y ddwy ochr yn cytuno bod hynny'n briodol*' (tudalen 2) er mwyn osgoi camgynrychioli;

- Roedd angen drafftio'r rhan Moeseg (tudalen 4) er mwyn egluro disgwyliadau a gweithdrefnau

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini lunio adroddiad byr yn ymgorffori'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn pan fydd y Siarter yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar ddiwedd y mis hwn.**

**6 ADRODDIAD MONITRO AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolydd Polisi a Strategaeth mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) y bydd dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau Iaith Gymraeg, o ganlyniad i'r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, yn trosglwyddo o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg ar 1 Ebrill 2012. Dros amser bydd pwerau newydd yn dod i rym yn gosod ac yn gorfodi safonau ar sefydliadau trwy ddeddfwriaeth eilaidd. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro cynlluniau iaith statudol dan bwerau a etifeddwyd o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro i'r Grŵp Tasg Iaith ar 22 Mai 2012 a bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'w gymeradwyo i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 18 Mehefin 2012, cyn ei anfon ymlaen i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad monitro wedi ei rannu'n benawdau sy'n cyfateb i ofynion trefniadau adrodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Nodwyd bod rhan 6 yr adroddiad yn amlinellu cynnydd yn erbyn prif flaenoriaethau a risgiau'r Cyngor.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mynegodd yr Aelodau eu boddhad gyda'r cynnydd a wnaed yn yr awdurdod, yn arbennig felly yn y meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Canolfannau Hamdden.

- Dywedwyd bod angen cryfhau'r iaith Gymraeg, yn arbennig ymysg plant ysgol yr Ynys a phobl ifanc.

- Cyfeiriwyd at dudalen 26 yr adroddiad lle nodir, mewn perthynas â'r swyddi rhan amser yng nghlybiau ieuenctid yr Ynys, bod 30 ohonynt yn swyddi Cymraeg hanfodol tra bod 6 yn rhai Cymraeg dymunol. Teimlwyd y dylai Arweinwyr Clybiau Ieuenctid fod yn siaradwyr Cymraeg er mwyn annog y bobl ifanc sy'n mynychu i siarad yr iaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini lunio adroddiad byr yn ymgorffori'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar ddiwedd y mis hwn.**

**7 ADOLYGIAD Y PWYLLGORAU SGRIWTINI CORFFORAETHOL O BROSES GOSOD CYLLIDEB 2012/13**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolydd Sgriwtini a oedd yn cynnwys gwerthusiad byr o'r broses ar gyfer gosod cyllideb 2012/13 o bersbectif Sgriwtini, ac i benderfynu ar sut y byddai Pwyllgorau Sgriwtini yn mynd ati i sgriwtineiddio'r gyllideb drwy gydol gweddill y flwyddyn.

Dywedodd y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini fod y gweithdai gosod cyllideb a gynhaliwyd tuag at ddiwedd mis Ionawr a dechrau mis Chwefror wedi bod yn gyfle pwysig i'r aelodau a'r swyddogion gael mewnbwn priodol i'r broses o osod y gyllideb. Awgrymwyd hefyd y gallai Gweithdy Sgriwtineiddio'r Gyllideb fod o fudd. Fodd bynnag, mae angen datblygu mwy ar y cysyniad hwn cyn proses gosod cyllideb 2013/14 er mwyn osgoi dyblygu posib. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y byddai gwahoddiad i'r Cadeirydd Sgriwtini drafod y mater gyda'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid. Roedd yr Aelodau yn awyddus i bwysleisio'r angen i gadw'r gwahaniad rhwng y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith.

Nodwyd bod llawer o ddyblygu yn ystod y broses o osod y gyllideb gan bod yr Uwch Swyddogion Cyllid wedi mynychu pump o gyfarfodydd a sesiynau briffio sgriwtini i roi'r un cyflwyniad iddynt.

Nodwyd bod adroddiad terfynol Sgriwtini ar gyllideb 2012/13 yn cynnwys 12 o brif argymhellion a gafodd eu hamgáu fel Atodiad 2 i'r adroddiad.  Caiff yr argymhellion hyn eu monitro yn ystod y flwyddyn mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Gyllid.

Materion a godwyd gan yr Aelodau –

- Dylid monitro adroddiadau ynghylch tanwariant a llithriad yn gyson.
- Mae angen esbonio'r broses gyfalaf yn fanwl o ran sut mae cyfalaf yn cael ei bennu a'i wario. Cynigiwyd y dylid sefydlu Panel Sgriwtini i ystyried arferion gorau o awdurdodau eraill wrth osod y gyllideb gyfalaf.  Eiliwyd y cais ond awgrymwyd (a derbyniwyd) y byddai o fudd sefydlu'r Panel ar ôl i'r Dirprwy Brif Weithredwraig newydd gychwyn yn ei swydd fel bod modd cael ei mewnbwn hi i'r mater.

Ymatebodd y swyddog i'r materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Bydd yr Adran Gyllid yn gweithio'n agos gyda'r Adain Sgriwtini i sicrhau gwell cyfathrebu mewn perthynas â'r gweithdai gosod cyllideb.  Nododd bod peth gwaith ar ôl i'w wneud i sicrhau bod y broses o osod y gyllideb, ar lefel aelodau, yn cael ei gwella.

- Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Cynaliadwyedd ar 28 Mai ar Asesiad Risg o Gyllideb 2012/13; bwriedir cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor yma gyda hyn fel bod modd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r risg yn y gyllideb.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion a nodir uchod.**

**8  BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL AR GYFER 2012/13**

Cyflwynwyd – y Flaenraglen Waith ar gyfer 2012/13.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Dylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fod yn eitem ar y Flaenraglen Waith
- Angen monitro Cynlluniau Busnes ar gyfer Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh.
- Dylai blaenoriaethau fforddiadwy fod yn eitem ar y Flaenraglen Waith.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod yr eitemau uchod yn cael eu rhoi ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor hwn ar gyfer trafodaeth a sgriwtini manwl.**

**ER GWYBODAETH YN UNIG**

**9  CWYNION**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad ar gwynion a chanmoliaeth a gafwyd yn ystod 2011/12 ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am yr angen i fabwysiadu'r Polisi Enghreifftiol ar gyfer Pryderon a Chwynion.

Roedd yr Aelodau yn ystyried bod yr ymateb i'r cwynion yn dangos llithriad bychan a nodwyd y dylid codi'r mater hwn gyda'r Panelau Sgriwtini.  Nodwyd hefyd y dylid bod dadansoddiad manylach o gwynion adrannol ar gael.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth a sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i ymchwilio'n fanylach i'r dadansoddiad o gwynion adrannol.**

**10 RHYDDID GWYBODAETH**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – yr Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â cheisiadau am Fynediad i Wybodaeth yn 2011/12.

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**